Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

## COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

**Dyddiad y penderfyniad:**

10 Ionawr 2022

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

10 Ionawr 2022

**Penderfyniad:**

ESTYNIAD I GYTUNDEB TGCh - SYSTEM AD

Ymestyn y trefniant dan gontract ar gyfer system wybodaeth Adnoddau Dynol y Cyngor am gyfnod o dair blynedd er mwyn gallu cynnal proses gaffael briodol.

**Bwriad y penderfyniad:**

Ymestyn y cyfnod dan gontract mewn perthynas â system wybodaeth Adnoddau Dynol y Cyngor gyda chyflenwr y system bresennol.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Bydd contract y Cyngor ar gyfer ei System Gwybodaeth Reoli Adnoddau Dynol yn dod i ben ym mis Awst 2022. Bydd cynnal proses gaffael a rhoi unrhyw system newydd ar waith yn debygol o gymryd mwy o amser na'r cyfnod sy'n weddill ar y contract ac felly mae angen sicrhau estyniad i'r contract.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan

**Ymgynghoriad:**

Cafwyd trafodaethau parhaus rhwng cydweithwyr yn yr adran Adnoddau Dynol, Cyllid a TGCh a Gwasanaethau Digidol ynglŷn ag ymestyn y contract a'r prosiect caffael yn y tymor hirach.

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

Gweler y Cynllun Dirprwyo.